Hysbysiad archwilio

# Hysbysiad o benodi'r dyddiad ar gyfer arfer hawliau etholwyr

**Cyngor Tref Yr Wyddgrug**

Y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2024

1. Dyddiad cyhoeddi: **14th Mehefin 2024**

2. Bob blwyddyn mae'r cyfrifon blynyddol yn cael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cyn y dyddiad hwn, caiff unrhyw berson â buddiant gyfle i archwilio a gwneud copïau o'r cyfrifon a'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau ac ati sy'n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar rybudd rhesymol. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, bydd y dogfennau hyn ar gael ar rybudd rhesymol wrth wneud cais i:

   **Jo Lane, Clerc y Dref a Swyddog Cyllid, Neuadd y Dref, Yr Wyddgrug CH7 1AB**

   **townclerk@moldtowncouncil.org.uk Ffôn:01352 758532**

   | | |
   |---|---|
   | rhwng oriau | **9am a 4pm o ddydd Llun i ddydd Gwener** |
   | yn dechrau ar | **01 Gorffennaf 2024** |
   | ac yn gorffen ar | **26 Gorffennaf 2024** |

3. O 12 Medi 2024, hyd nes y bydd yr archwiliad wedi'i gwblhau, mae gan Etholwyr Llywodraeth Leol a'u cynrychiolwyr hefyd:
   - yr hawl i holi'r Archwilydd Cyffredinol am y cyfrifon.
   - yr hawl i fod yn bresennol gerbron yr Archwilydd Cyffredinol a gwneud gwrthwynebiadau i'r cyfrifon neu unrhyw eitem ynddynt. Yn gyntaf, rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig o wrthwynebiad i'r Archwilydd Cyffredinol. Rhaid rhoi copi o'r hysbysiad ysgrifenedig i'r cyngor hefyd.

Gellir cysylltu â'r Archwilydd Cyffredinol drwy: Archwiliadau Cyngor Cymunedol, Archwilio Cymru, 1 Prifddinas-Chwarter, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ neu drwy e-bost yn communitycouncilaudits@audit.cymru.

4. Mae'r archwiliad yn cael ei gynnal o dan ddarpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.